

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA – P/KS/0349/17
Lynne Neagle AC
Cadeirydd – Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

lynne.neagle@assembly.wales

27 Chwefror 2017

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Ionawr 2017 ynghylch y cynllun FyNgherdynTeithio.

Rwy'n parhau i fod yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant y cynllun, sy'n gynllun peilot sy'n cael ei ariannu rhwng Medi 2015 a Mawrth 2017.

Gofynnais felly i Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru – sy'n cynrychioli'r diwydiant bysiau –ychydig yn ôl am gynnig manwl am gynllun etifeddol fforddiadwy o'r 1 Ebrill 2017. Heb hynny, rwyf wedi ystyried amrywiol opsiynau a ddatblygwyd gan swyddogion.

Mae'r posibilïadau am gynllun etifeddol fforddiadwy wedi cael eu trafod ers hynny gyda'r Cydffederasiwn a chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol. Roedd y trafodaethau yn galonogol, ac fe welwch o'm cyhoeddiad ar 21 Chwefror y bydd y trefniadau presennol i bobl ifanc 16, 17 ac 18 oed deithio'n rhatach ar fysiau yn parhau i fod ar gael o 1 Ebrill 2017. Rwyf hefyd wedi gofyn i'r Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr wneud cynigion ar gyfer ymgyrch farchnata newydd. Ni fydd unrhyw berson ifanc rhwng 16 ac 18 mlwydd oed sy'n parhau i fod yn gymwys yn gweld unrhyw wahaniaeth.

Yn yr hirdymor, rwy'n bwriadu lansio Pas Teithio i Bobl Ifanc o 2018. Byddaf yn cynnal ymgynghoriad am yr hyn rwy'n gobeithio fydd yn gynllun deniadol a fforddiadwy fydd yn cefnogi pobl ifanc gyda'u bywydau, eu gwaith a'u hastudiaethau, ac ar yr un pryd, eu hannog i newid eu ffordd o deithio.

Cofion gorau,

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.